

*Datganiadau Ariannol*  
*am y*  
*Flwyddyn hyd at*  
*31 Gorffennaf 2013*



# CYNNWYS

	<i>Tudalen</i>
ADRODDIAD Y TRYSORYDD.....	1-3
RHEOLAETH GORFFORAETHOL.....	4
DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS.....	5-7
CYFRIFOLDEBAU CYNGOR Y BRIFYSGOL .....	8
ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL .....	9-10
DATGANIAD O'R PRIF BOLISI'AU CYFRIFEG .....	11-14
CYFRIF INCWM A GWARIANT .....	15
COFNOD O'R GWEDDILL A'R DIFFYG YN ÔL Y GOST WREIDDIOL.....	15
Y FANTOLEN .....	16
DATGANIAD O'R ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG.....	17
DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD.....	18
NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL .....	19-45

## ADRODDIAD Y TRYSORYDD

### Canlyniadau am y Flwyddyn

Dyma grynodeb o'r cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Gorffennaf 2013, ynghyd â'r ffigyrau cymharol ar gyfer 2011/12:

	2012/13 £'000	2011/12 £'000
Incwm	119,224	120,392
Gwariant	119,025	119,769
Gweddill ar Weithgareddau Parhaus ar ôl Dibrisio Asedau	199	623
Trosglwyddo i Incwm a Gronnir o fewn y Cronfeydd Gwaddol (Diffyg)/Gweddill a gedwir o fewn yr Arian Cyffredinol wrth Gefn	(127)	(116)
Gweddill yn ôl y Costau Gwreiddiol	72	507
	2,188	2,613

£2.2m yw'r gweddill sy'n cael ei adrodd yn ôl y costau gwreiddiol a'r gweddill am y flwyddyn a gedwir o fewn yr arian cyffredinol wrth gefn yw £72K, sydd fymryn uwchben lefel adennill costau. Hyd yn oed yng nghyd-destun ansicrwydd ac anwadalarwydd digyffelyb y sefyllfa allanol, o ran y Sector Addysg uwch a'r economi ehangach, mae'r sefyllfa weithredol hon yn sylweddol is nag amcanion adenillion ariannol y Brifysgol yn y tymor canolig a'r tymor hir.


### Incwm

At ei gilydd, mae cyfanswm yr incwm ar weithgareddau rheolaidd, sef £119.2m, yn parhau yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad o c £1M yn ganlyniad i gostau bwrsariaeth llety a enillwyd oddi ar incwm yn 2012/13.

Gostyngodd grantiau cyllid adnewyddol y Cyngor Cyllido o £10.8m (37.6%), ond mae'r cynnydd yn y ffioedd dysgu wedi gwneud mwy nag iawn am hyn.


Cafwyd £13.5m o gynnydd yn yr incwm o Ffioedd Dysgu myfyrwyr amser llawn cartref a'r UE, sy'n adlewyrchu dwy flynedd o'r gyfundrefn ffioedd £9K.

Un o amcanion strategol allweddol y Brifysgol yw gweld cynnydd yn nifer y Myfyrwyr Rhyngwladol drwy feithrin perthynas gref â sefydliadau penodol dramor yn ogystal â thrwy recriwtio marchnad agored. Cafwyd £1.8m o gynnydd yn yr incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr rhyngwladol amser llawn yn 2012/13.



Roedd Incwm Ymchwil am y flwyddyn yn £18.4m, sef gostyngiad o £1.5m o'r flwyddyn gynt ar yr un pryd ag y mae'r Brifysgol yn gweld gostyngiad yn lefelau adennill gweithgareddau grantiau ymchwil. Bydd effaith marchnad fwyfwy cystadleuol ar gyfer y llif hwn o gyllid yn gofyn am fonitro gofalus a chan ei fod yn faes twf strategol allweddol bydd angen canolbwyntio arno'n benodol yn ystod trafodaethau'r rownd gynllunio yn y flwyddyn sydd i ddod.

## ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)




### Becweddau a Rhoddion

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Brifysgol fecwedd o £580k gan Dr Owen Price a ddefnyddir i ddarparu ysgoloriaethau i fyfyrwyr Cymraeg yn IBERS (Astudiaethau Gwledig).

### Gwariant

Mae cyfanswm y gwariant ar weithgareddau adnewyddol wedi cynyddu 0.3% (£429k).

Mae'r costau staffio (ac eithrio ailstrwythuro) wedi cynyddu o £2m (3%). Mae hyn yn rhannol oherwydd buddsoddi mewn staff fel rhan o'r strategaeth wrth baratoi ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014.



### Perfformiad Buddsoddiadau

I raddau helaeth mae ein gweinyddiaeth o'n buddsoddiadau gwaddolion yn parhau yn yr un modd. At ei gilydd, 10.4% oedd cyfanswm adenillion y portffolio. Dyma oedd adenillion ar yr asedau gwaddolion yn gyfangwbl, nid yn unig y rhai dan reolaeth rheolwyr allanol.

Yn y flwyddyn hon 24.3% oedd ffigur adenillion Mynegai Holl Gyfranddaliadau yr FTSE a 25.6% oedd ffigur adenillion Mynegai'r Byd ac eithrio'r DU. 4.7% oedd ffigur adenillion Mynegai Eiddo misol IPD y DU. Roedd y gyfradd gymysg oddeutu 16%.

Mae ein daliadau o fondiau corfforaethol wedi rhagori yn ôl y mynegai priodol, sef adenillion o 5.7% (gros o ffioedd) o'i gymharu â 4.5%. Cafwyd adenillion o 8.7% a 6.0% o'r ddwy gronfa adenillion absoliwt, sy'n gyson â chyfres sefydlog o adenillion â llai o anwadalrwydd.

Yn ystod y flwyddyn gwerthwyd yr holl gronfeydd ecwiti gweithredol ac ailfuddsoddiwyd yr arian mewn cronfeydd ecwiti yn y DU a Thramor sy'n olrhain y mynegai. Symudwyd rhwyfaint o ddyraniad y DU i'r cronfeydd Tramor, er mwyn cael portffolio mwy amrywiol.

## ADRODDIAD Y TRYSORYDD (parhad)

---

### Pensiynau

Fel yn achos nifer o sefydliadau, mae pensiynau yn parhau yn rhwymedigaeth sylweddol ac yn risg.

Fel yr amlinellir yn nodyn 25, cynllun â buddion wedi'u diffinio yw Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth a chaiff yr asedau a'r rhwymedigaethau eu hailfesur bob blwyddyn gan yr actiwariaid. Mae diffyg y Cynllun (yn ôl dulliau mesur Safon Adrodd Ariannol 17) wedi gostwng o £24.3m i £17.6m. Mae hyn yn cynnwys cynnydd actiwaraidd a gydnabyddir yn y datganiad sy'n nodi cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig o £7m.

Mae'r Brifysgol wedi bod yn trafod â Mercer yn ystod y deuddeg mis diwethaf i asesu'r amrywiol ddewisiadau y gallai'r Brifysgol benderfynu eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y risg o ran y Cynllun Pensiwn yn cael ei lleihau. Mae'r Brifysgol yn disgwyl cychwyn ar ymarfer ymgynghori yn fuan.

Mae Cynllun Blwydd-dâl y Prifysgolion (USS) yn gynllun amlgyflogwr ac ar hyn o bryd nid yw ei asedau a'i rhwymedigaethau yn ymddangos yn y Datganiadau Ariannol hyn. Mae'r perygl y daw'r Brifysgol yn gyfrifol am ran o ddiffyg y Cynllun yn un real. Bydd newidiadau i'r Safonau Adrodd Ariannol yn y dyfodol yn golygu y bydd yn rhaid i'r Brifysgol greu rhwymedigaeth o ymrwymo i gyfrannu at gynllun adennill diffyg. Gallai hwn o bosibl fod yn rhwymedigaeth newydd mawr ac anwadad. Mae'r safonau newydd hyn yn orfodol ar gyfer cyfnodau cyfrifo fydd yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015 ac yn effeithio ar bob prifysgol sy'n aelodau o'r USS.

### Y Fantolen

Cynyddodd yr asedau net cyffredinol o £163.5m i £174.6m. Cryfhawyd ymhellach fantolen a oedd eisoes yn gryf. Mae hyn yn rhannol oherwydd gostyngiad yn nifyg y pensiynau a hefyd oherwydd y cynnydd o £12m mewn arian parod.

Mae hi'n galanogol adrodd cynnydd sylweddol o fewn arian dros y flwyddyn, sydd yn rhannol oherwydd casglu dyled yn effeithiol. Mae'r Adran Gyllid i'w llongyfarch ar y cyflawniad yma yn y flwyddyn. Mae lefel yr arian ar ddiwedd y flwyddyn nawr yn cyfateb â'r sefyllfa arferol o fewn y sector.

Yn ystod y flwyddyn trowyd £6.6m yn gyfalaf. Roedd hyn yn cynnwys tua £2.7m o offer yn IBERS a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC), £1m o ffioedd proffesiynol ar gyfer Prosiect Neuaddau Preswyl Newydd Penglais a £678k o gostau cychwynnol Adnewyddu Canolfan Llanbadarn.

Caewyd Prosiect Neuaddau Preswyl Newydd Penglais yn ariannol ar Orffennaf 31<sup>ain</sup> 2013. Mae'r gwaith adeiladu ar y safle wedi'i gwblhau a bydd 800 ystafell ar gael erbyn Medi 2014 a'r 200 ystafell sy'n weddill erbyn Rhagfyr 2014. £45m yw cyfanswm y costau adeiladu.

### Rhagolygon

Cymeradwyodd y Cyngor ragolygon ariannol pum mlynedd gan gynnwys mantolen incwm a gwariant, buddsoddi cyfalaf, llif arian a hylifedd ym Mehefin 2013. Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir mae angen i lefel y gweddillion blynedd godi i ryw 5% o'r holl incwm. Mae'r Brifysgol wrthi'n ddiwyd yn ceisio amrywio sylfaen ei hincwm a bydd yn lansio strategaeth ryngwladol newydd yn 2013/14. Mae Strategaeth Ystadau newydd y Brifysgol a'r rhagolygon ariannol pum mlynedd yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i raglen o fuddsoddiadau ar gyfer yr ystad academiaidd a phreswyl. Mae'r Brifysgol yn bwriadu buddsoddi rhyw £140m yn yr ystad, sy'n fuddsoddiad mawr.

O edrych i'r dyfodol, bydd y Brifysgol yn ymdrechu i leihau risg ac anweddolrwydd ar draws ei gweithgareddau, ond yn arbennig o fewn gweithgaredd y ffermydd, trefniadau pensiwn a chyfraniadau ymchwil.

Bydd hi'n hanfodol i'r Brifysgol ddenu y nifer a'r ansawdd angenrheidiol o fyfyrwyr dan y gyfundrefn ariannu newydd. Yn ychwanegol, bydd y Brifysgol yn ceisio ffyrdd arloesol newydd o gynyddu incwm y trydydd sector er mwyn cynhyrchu cyben digonol ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol. O ran gwariant, byddwn yn adolygu'r sylfaen gost yn systemig er mwyn lleihau costau i ganiatau'r Brifysgol i fod yn addas-at-bwrpas o fewn yr amgylchedd gynyddol gystadleuol y mae'n gweithredu ynddi.

Mae adegau anodd o flaen y Brifysgol ond er gwaethaf y diffyg yn niferoedd recriwtio myfyrwyr yn 2013/14, mae'r Brifysgol yn hyderus y bydd yn llwyddo i wneud cynnydd yn unol â'i thargedau strategol. Rwy'n diweddru drwy gofnodi fy ngwerthfawrogiad o waith Peter Curran, Cyfarwyddwr Cyllid, aelodau staff yr Adran Gyllid a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn ystod 2012-13.

**Dr Timothy Brain OBE QPM BA PhD FRSA CCMi**  
**Trysorydd**  
**13 Rhagfyr 2013**

*Timothy Brain*

## LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

---

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r arferion gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio sut mae hi wedi gweithredu ar yr egwyddorion a geir yn Adran 1 o'r Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Gyfnewidfa Stoc Llundain ym mis Mehefin 1998. Ei bwras yw cynorthwyo rhywun wrth ddarllen y datganiadau ariannol hyn i deall sut mae'r egwyddorion wedi cael eu defnyddio.

Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am drefniadau rheoli mewnol y Brifysgol ac am arolygu effeithiolrwydd hynny. Bwriad trefniadaeth o'r fath yw rheoli'r risg o fethu a chyflawni amcanion busnes yn hytrach na chael gwared a'r risg honno, a bydd yn cynnig sicrwydd rhesymol yn unig - nid sicrwydd absoliwt - yn erbyn camddatgan neu golled sylweddol.

Cred Cyngor y Brifysgol yw bod proses barhaus ar gyfer canfod, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Brifysgol; ei bod wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf 2013 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol; ei bod yn cael ei hadolygu gan Gyngor y Brifysgol yn rheolaidd; a'i bod yn cydymffurfio â chanllawiau rheoli mewnol i gyfarwyddwyr yn y Cod Cyfun fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Yn unol â gofynion ei Statudau, mae Cyngor y Brifysgol yn cynnwys nifer o aelodau ex officio, penodedig, etholedig, cynrychiadol a chyfetholedig, gan gynnwys unigolion annibynnol ac academiaidd. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor yn cyflawni rôl anweithredol, a didolir rôl Cadeirydd y Cyngor oddi wrth rôl Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor.

Eglurir pwerau'r Cyngor yn Statudau'r Brifysgol. Yn ôl ei arfer ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'r Cyngor yn dal iddo'i hun, ymysg pethau eraill, gyfrifoldeb am gyfeiriad strategol parhaus y Brifysgol, am gymeradwyo datblygiadau o bwys, ac am dderbyn cofnodion rheolaidd oddi wrth ei is-bwyllgorau ar weithgareddau beunyddiol ei fusnes a'i is-gwmnïau.

Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2012-2013, cyfarfu'r Cyngor ar saith achlysur. Fodd bynnag, ymdrinnir a llawer o'i waith manwl gan sawl is-bwyllgor, gan gynnwys Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, Pwyllgor Datblygu Proffesiynol a Staffio, Pwyllgor Cydnabyddiaethau, Pwyllgor Enwebiadau, a Phwyllgor Archwilio a Risg. Mae pob un o'r is-bwyllgorau hyn wedi ei sefydlu'n ffurfiol, pob un â'i gylch gorchwyl ei hun a chyfran o'i aelodau o blith aelodau annibynnol y Cyngor. Cyflwynir penderfyniadau'r is-bwyllgorau hyn mewn adroddiadau i'r Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am gwrdd â'r Archwilwyr Allanol i drafod canfyddiadau'r archwiliad, ac am gwrdd â'r Archwilwyr Mewnol i ystyried adroddiadau manwl ar archwiliadau mewnol ac argymhellion i wella trefniadau rheoli mewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymateb y rheolwyr a chynlluniau gweithredu. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wrth iddynt gael effaith ar fusnes y Brifysgol, ac yn monitro sut y glynir wrth ofynion rheoliadaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn arolygu datganiadau ariannol blynyddol y Brifysgol ynghyd â'r polisïau cyfrifeg. Yn ychwanegol dichon y gofynnir iddynt archwilio enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau eraill.

Er bod uwch-swyddogion gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ôl yr angen, nid ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor, a gall y Pwyllgor gwrdd â'r Archwilwyr ar eu pennau eu hunain er mwyn cael trafodaeth annibynnol.

Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Pwyllgor Rheoli Risg sydd wedi llunio proses ffurfiol i ganfod, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu. Mae hynny'n cynnwys nodi'n ffurfiol y mathau o risgiau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu, gan eu blaenoriaethu o ran eu heffaith ddichonol ac o ran pa mor debyg ydynt o ddiwydd, a nodi ffyrdd o leihau'r risgiau hynny. Mae'r risgiau a'r ffyrdd o'u rheoli yn cael eu monitro yn barhaus, a rhoddir adroddiadau ac argymhellion priodol i'r Cyngor, drwy'r Pwyllgor

## DATGANIAD O FUDD CYHOEDDUS

---

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig (Rhif 1145141) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu nodau ac amcanion y Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar y budd cyhoeddus a'r canllawiau ategol i elusennau a sefydlwyd at ddibenion addysgiadol.

Y gweithgareddau y mae'r Brifysgol yn eu gwneud sydd o fudd i'r cyhoedd yn unol â'i hamcanion elusennol yw: hybu dysg drwy ei gwaith dysgu ac ymchwil a thrwy roi sylw arbennig i anghenion addysgiadol Cymru, gan roi sylw i'r Gymraeg a diwylliant Cymru, yn ogystal â datblygiad economaidd a thraddodiadau cymdeithasol Cymru.

Ers 1872 mae'r Brifysgol yn hybu rhagoriaeth mewn ymchwil a dysgu o dan ei harwyddair, 'Nid byd, byd heb wybodaeth'. Credwn yn gryf y dylai profiad y myfyriwr ddatblygu chwilfrydedd academaidd, ac awydd am ddysg a datblygu personol sy'n para gydol oes ac sy'n trawsnewid bywydau. Rydym yn gwerthfawrogi arloesedd a rhagoriaeth mewn ymchwil ym mhob maes a disgyblaeth, ac rydym yn annog gwaith ar draws y disgyblaethau er mwyn ymdrin â heriau byd-eang. Anelwn at chwalu'r meini tramgwydd sy'n rhwystro pobl rhag gallu manteisio ar addysg ac rydym yn cydweithio'n agos â'r gymuned er mwyn sicrhau bod y drysau i'n darpariaeth yn cael eu hagar yn lletach.

### Amcanion Strategol

Mae amcanion strategol y Brifysgol wedi'u gosod yn ei Chynllun Strategol i 2012-17 sydd ar gael yn [www.aber.ac.uk/cy/strategicplan](http://www.aber.ac.uk/cy/strategicplan). Nodir y rhain isod, ynghyd ag asesiad o'r budd cyhoeddus sy'n deillio o ymrwymiad y Brifysgol iddynt.

**Creu Cyfleoedd: chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag manteisio ar addysg uwch, helpu myfyrwyr a staff i lwyddo a datblygu, ymgorffori cyflogadwyedd ar draws ein cwricwlwm, a hybu profiadau sy'n golygu bod myfyrwyr yn gallu profi a datblygu eu sgiliau, gwerthfawrogi pobl a gwreiddu eu potensial llawn, adlewyrchu cyfrifoldeb cymdeithasol yn ein holl waith.**

*Bwrsariaethau* – mae gan Brifysgol Aberystwyth ystod gynhwysfawr o Fwrsariaethau, Ysgoloriaethau Mynediad a Gwobrau gwerthfawr sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o wledydd Prydain a'r Undeb Ewropeaidd, gan ddarparu fframwaith o gefnogaeth ariannol i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu manteisio ar Addysg Uwch. Mae nifer o ysgoloriaethau rhagoriaeth rhyngwladol ar gael hefyd. Cydweithiwn yn agos â'n myfyrwyr, yn ymateb i adborth i sicrhau bod y pecynnau o gymorth a gynigiwn, gan gynnwys ein bwrsariaethau, yn ymateb i anghenion myfyrwyr wrth i'r anghenion hynny newid.

*Cymorth i fyfyrwyr a chyfle cyfartal* – mae Prifysgol Aberystwyth yn darparu ystod o gymorth i fyfyrwyr i'w helpu i wneud y gorau o'u hamser yn y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cwrsela a chyngor ariannol, cyngor ar hygyrchedd, a chymorth a anelir at grwpiau penodol o blith y myfyrwyr, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr sy'n dod o gefndir mewn gofal. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Prifysgol Aberystwyth yn estyn croeso i staff a myfyrwyr o bob cefndir ac rydym yn gweithio gydag amryw gyrrff, gan gynnwys Stonewall, Ymddiriedolaeth Buttle, Athena SWAN a Chomisiynydd y Gymraeg, er mwyn hybu amrywioldeb a chyfle cyfartal i'n holl staff a myfyrwyr.

*Ehangu cyfranogiad* - Credwn y dylai pawb a allai elwa ar addysg mewn prifysgol gael y cyfle i wneud hynny. Mae ein dull arloesol ni o ehangu'r drysau i addysg uwch yn cynnwys prosiectau i godi uchelgais ymhlith y rhai sy'n gadael ysgol; ein Prifysgol Haf yw'r enghraifft bwysicaf o'r rhain. Yn y cwrs preswyl hwnnw, cynigiwn raglen ddwys o Addysg Uwch i ddisgyblion sydd mewn perygl o beidio a gwneud cystal ag y gallent, er mwyn eu hannog i gydnabod eu potensial eu hunain. Ymhlith ein mentrau eraill y mae'r cynllun Ehangu Gornwelion, lle y caiff disgyblion ysgolion lleol ym mlwyddyn 11 ddod i sesiynau adolygu wythnosol ym Mathemateg a Saesneg ac i Ysgol y Pasg, cwrs preswyl wythnos. Rydym hefyd yn cynnal y fenter Blas ar Fwyd Prifysgol a anelir at ddisgyblion o flwyddyn 8 i flwyddyn 13, yn rhoi cyfle iddynt i ymweld â'r Brifysgol a chael cyflwyniad i fywyd mewn prifysgol.



## DATGANIAD O FUDD CYHOEDDUS (parhad)

---

**Ymchwil rhagorol sy'n creu effaith: datblygu ymhellach ar ein llwyddiannau ymchwil er mwyn gwneud gwahaniaeth drwy ymdrin â heriau byd-eang, a darparu modd o ddeall y dyfodol drwy'r gorffennol.**

*Cefnogi ymchwil sy'n mynd i'r afael â materion byd-eang* – Ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym yn falch o'n hymchwil sy'n mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu'r gymdeithas. Rydym yn dal i wneud cyfraniad yn y brwydrau yn erbyn newyn, newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, a salwch, ac rydym yn gwneud cyfraniad gweithredol yn y dadleuon ar bynciau llosg byd-eang sy'n effeithio arnom ni i gyd, megis diogelwch, cyfathrebu, hunaniaeth ddiwylliannol, llenyddiaethau, hanes, a lleoedd.

*Cyswllt â'r cyhoedd drwy ein caffï gwyddoniaeth a'n darlithoedd cyhoeddus* – mae Prifysgol Aberystwyth yn helpu i feithrin cyswllt y cyhoedd ag ymchwil drwy gyfresi'r Caffï Gwyddoniaeth a'r Caffï Ymchwil a thrwy ddarlithoedd cyhoeddus, sydd oll ar agor i'r cyhoedd ac sy'n cynnig rhaglen o siaradwyr o fri byd-eang. Mae ein hymchwilyr hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion i geisio ysbrydoli ac annog cenedlaeth newydd o ymchwilyr ar gyfer y dyfodol.

**Dysgu sy'n ysbrydoli: gwella ymhellach ar y profiad o'r radd flaenaf y mae ein myfyrwyr yn ei gael drwy fuddsoddi mewn isadeiledd o safon a phortffolio rhagorol sy'n pwysleisio cyflogadwyedd a sgiliau hyd oes, gan roi i'n myfyrwyr y sgiliau a'r wybodaeth i lwyddo yn y dyfodol.**

**Dysgu gydol oes a dysgu yn y gymuned** - mae Prifysgol Aberystwyth yn cefnogi ystod o brosiectau dysgu yn y gymuned. Cynigir portffolio helaeth o gyrsiau rhan-amser ym meysydd celf, ysgrifennu creadigol, ecoleg, bwyd a maeth, y dyniaethau, technoleg gwybodaeth, astudiaethau plentyndod ac ieithoedd modern tramor. Gellir cyfuno llawer o'r rhain ar gynlluniau astudio sy'n arwain i Dystysgrif Addysg Uwch. Ar ben hynny, cynhelir amryw ddigwyddiadau undydd mewn canolfannau cymuned lleol, gan gynnwys digwyddiadau i ddatlu Diwrnod Rhyngwladol Menywod a chysiau undydd mewn celf ac ysgrifennu creadigol a gweithdai sgiliau personol i fagu hyder. Mae ein gwaith ag ysgolion lleol yn cynnwys: chwarae rhan yn yr Wythnos Gwyddoniaeth a Pheirianeg Genedlaethol, lle y mae plant lleol yn gallu cyfranogi o waith ymchwil ein staff academaidd a'n graddedigion, cyflwyniadau'r Cylch Gwyddoniaeth i ysgolion a cholegau, a dosbarthiadau celf ar ôl ysgol.

**Meithrin ein cysylltiadau â'r byd: adeiladu ar ein henw da rhyngwladol, denu myfyrwyr a staff o bedwar ban byd, a chydweithredu â phartneriaid a gydnabyddir yn rhyngwladol.**

*Codi proffil rhyngwladol gorllewin Cymru* - cymuned ryngwladol ffyniannus yw Prifysgol Aberystwyth, yn croesawu staff a myfyrwyr o dros 90 o wledydd o bob cwr o'r byd, ac yn cydweithio â sefydliadau, busnesau a chyrrff ledled y byd. Mae'r ffaith ein bod yn cael llwyddiant, dro ar ôl tro, yn arolwg y Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol o foddhad myfyrwyr yn brawf o'r parch sydd gan fyfyrwyr rhyngwladol tuag at Brifysgol Aberystwyth. Mae hyn, ynghyd â'n gwaith mewn prosiectau ymchwil a chynadleddau rhyngwladol, yn cyfrannu at ein gwaith i godi proffil rhyngwladol gorllewin Cymru ac i annog y byd i weld y gorllewin fel cyrchfan uchel ei bri i astudio a chynnal busnes ynddi.

*Hybu'r Gymraeg* - mae Prifysgol Aberystwyth yn llwyr ymwybodol o'i chyfrifoldeb arbennig i hybu addysg drwy'r Gymraeg ac mae'n falch o gael cangen o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi'i sefydlu ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd presenoldeb y Coleg yn ategu ein gwaith wrth gyfoethogi ein darpariaeth yn y Gymraeg a hefyd yn ein helpu yn ein hymroddiad i feithrin bywyd diwylliannol Cymru.

*Gwaith cymunedol sy'n estyn drwy'r byd* – Mae ein Canolfan y Celfyddydau yn darparu adnodd diwylliannol sy'n agored i bawb. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r ganolfan yn cynnal un o'r rhaglenni celfyddydol cymunedol mwyaf yng Nghymru, yn annog pobl i ymuno ar y llwyfan, mewn dawn, mewn geiriau – ar lafar ac yn ysgrifenedig – a'r celfyddydau gweledol. Mae'r rhaglen yn denu tua 100,000 o gyfranogwyr bob blwyddyn. Mae'r Ganolfan ei hunan yn denu mwy na 700,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac mae'n ganolbwynt i berfformiadau ac arddangosfeydd proffesiynol ac amatur y fro. Ar ben darparu lleoedd i berfformio ac ymarfer ynddynt i grwpiau amatur lleol, mae'r Ganolfan yn dod â pherfformiadau proffesiynol o safon fyd-eang i Gymru, gan gynnwys digwyddiadau darlledu llif byw o Opera Metropolitan Efrog Newydd, Bale Bolshoi, a Theatr Genedlaethol Lloegr. Drwy Ganolfan y Celfyddydau gallwn ddarparu cyrchfan ddiwylliannol i'r fro lle y gall pobl fwynhau'r gorau posib o theatr, sinema a chelfyddydau gweledol y byd, a chyfranogi o'r celfyddydau eu hunain drwy ystod eang o ddsbarthiadau, cyrsiau undydd a grwpiau i ymarferwyr.

## DATGANIAD O FUDD CYHOEDDUS (parhad)

---

**Gweithio mewn partneriaeth: cydweithredu â phrifysgolion eraill, â'r gymuned leol ac Addysg Bellach, â chyflogwyr a busnesau, ac â'n cyn-fyfyrwyr, a chydweithio â phartneriaid a gydnabyddir yn rhyngwladol.**

*Cysylltiadau â'r gymuned ac effaith ar y rhanbarth* - Cydweithiwn yn agos â nifer o bartneriaid lleol, gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Coleg Ceredigion, ysgolion lleol a grwpiau cymunedol. Rydym yn annog ein myfyrwyr i fanteisio ar bob cyfle i weithio a gwirfoddoli gyda grwpiau a gwasanaethau lleol. Amcangyfrifwn fod ein myfyrwyr yn cyfrannu dros 17,000 awr o waith gwirfoddol yn yr ardal leol bob blwyddyn. Derbyniwn fod gennym gyfrifoldeb i'r gymuned sydd o'n cwmpas, ac rydym wedi ymroi i gryfhau ein cysylltiadau lleol, ac yn cydnabod ein cyfraniad pwysig i gynaliadwyedd a chreu cyfoeth yn ein rhanbarth. Drwy Ganolfan Sgiliau CADARN, gan gydweithredu â sefydliadau addysg uwch ar draws y rhanbarth, rydym yn helpu i ddarparu ystod o gyrsiau datblygu proffesiynol parhaus. Cynhaliwn ddigwyddiadau cymunedol rheolaidd, megis Bioblitz, lle gwahoddyd y Gymuned i ystod o gyflwyniadau natur a gweithdai ar y campws, a Mynediad am Ddim, sef diwrnod o weithgareddau i deuluoedd i arddangos gwaith ein hadrannau academaidd.

**Buddsoddi yn ein dyfodol: datblygu ein hadnoddau a buddsoddi yn ein hamgylchedd i wireddu ein blaenoriaethau strategol, gan sicrhau cynaliadwyedd a thwf Prifysgol Aberystwyth yn y dyfodol.**

*Effaith ar yr economi leol* - Ni yw'r cyflogwr mwyaf yn y rhanbarth ac yn ffynhonnell bwysig o gyfoeth. Rydym hefyd yn gwsmer pwysig i lawer o fusnesau'r rhanbarth ac rydym wedi ymrwymo i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau mewn modd cynaliadwy, sydd yn aml yn golygu defnyddio cyflenwyr lleol. Rydym yn darparu ystod o wasanaethau i fusnesau lleol, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, cyrsiau datblygu proffesiynol parhaus, technoleg i fusnesau a digwyddiadau busnes drwy'r digwyddiadau Rhwydwaith Busnes a'r Ganolfan Sgiliau.

*Effaith ar yr amgylchedd lleol* - Rydym yn ddigon ffodus i sefyll ar lannau un o arfordiroedd harddaf y byd, sydd yn gynefin i doreth o fywyd gwylt, yn blanhigion ac anifeiliaid. Saif y campws yn ardal drosglwyddo Biosffer Dyfi, sydd yn gartref i dair Ardal Cadwraeth Arbennig a saith Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Rydym wedi gosod her inni ein hunain i 'wyrddio' y Brifysgol, drwy wella sut rydym yn rheoli gwastraff a dŵr, lleihau ein hól-troed carbon, ymgorffori cyflogadwyedd yn y cwricwlwm a chefnogi ymchwil i faterion amgylcheddol sy'n effeithio ar y byd, megis diogelwch cyflenwadau bwyd a dŵr, risgiau llifogydd, a bioamrywiaeth.

## CYFRIFOLDEBAU CYNGOR Y BRIFYSGOL

---

Yn unol â Siarter Ymgorfforiad y Brifysgol, y Cyngor yw corff llywodraethu goruchaf y Brifysgol. Mae'n gyfrifol am weinyddiaeth a rheolaeth materion y Brifysgol, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno datganiadau ariannol wedi eu harchwilio am bob blwyddyn ariannol.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg addas, a fyddai'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Brifysgol fel y gallai sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â Siarter Ymgorfforiad y Brifysgol, a Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch, ac â safonau cyfrifeg perthnasol eraill. Yn ychwanegol, yn rhan o delerau ac amodau'r Memorandwm Cyllidol y cytunwyd arno rhwng Cyngor y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'n ofynnol i'r Cyngor, trwy gyfrwng swyddog a benodwyd ar ei ran, baratoi adroddiadau ariannol am bob blwyddyn ariannol, sydd yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Brifysgol, o'r gweddill neu'r diffyg, ac o'r llif arian am y flwyddyn honno.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am gynnal ac am gywirdeb datganiadau ariannol a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol. Dylid nodi y gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, sicrhodd y Cyngor fod:

- polisiau cyfrifeg addas yn cael eu dethol a'u gweithredu'n gyson;
- penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a synhwyrol yn cael eu gwneud;
- safonau cyfrifeg perthnasol yn cael eu dilyn, a bod unrhyw amrywiadau sylweddol yn y drefn yn cael eu datgelu a'u hegluro yn y datganiadau ariannol;
- datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y gysail bod y sefydliad i barhau, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu. Mae'r Cyngor wedi'i fodloni bod gan y Brifysgol ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y dyfodol gweladwy; am y rheswm hwn mae'r sail weithredol yn dal i gael ei defnyddio wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cymerodd y Cyngor gamau rhesymol i:

- sicrhau bod y cyllid a ddaw oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael ei ddefnyddio yn unig i'r pwrpas a nodwyd wrth ei roi, ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda'r Cyngor Cyllido, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill y bydd y Cyngor Cyllido yn eu gosod o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod trefniadau ariannol a rheolaeth addas mewn grym i ddiogelu cyllid cyhoeddus yn ogystal â chyllid a ddaw o ffynonellau eraill;
- warchod asedion y Brifysgol gan atal a darganfod twyll ac arferion afreolaidd eraill;
- sicrhau bod adnoddau a gwariant y Brifysgol yn cael eu rheoli'n economaidd, effeithlon, ac yn effeithiol.

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

---

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Brifysgol (y "datganiadau ariannol") ar gyfer Prifysgol Aberystwyth i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2013, sy'n cynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant y Brifysgol, Mantolen y Brifysgol, Datganiad Llif Arian y Brifysgol, Datganiad y Brifysgol am Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, y Polisiau Cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Rhoddir yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn unig, yn unol â Siarter a Statudau'r Brifysgol. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud er mwyn datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol arnom eu datgan iddo mewn adroddiad archwilio, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac arddel cyfrifoldeb i neb ond y Cyngor, am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, a'r casgliadau yr ydym wedi eu gwneud.

### Cyfrifoldebau Perthnasol y Cyngor a'r Archwilwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor y Brifysgol, y Cyngor sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a rhoi ein barn ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn golygu ei bod hi'n ofynnol arnom gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael gafael ar ddigon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau a geir yn y datganiadau ariannol fel y gellir cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau materol, boed hynny'n deillio o dwyll neu amryfusedd. Mae hynny'n cynnwys asesiad o'r materion canlynol: a yw'r polisiau cyfrifeg yn addas i amgylchiadau'r Brifysgol ac a ydynt wedi'u cymhwysu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon o sylwedd a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny, darllenwn yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad y Trysorydd i sicrhau nad oes anghysonderau o sylwedd â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Pe caem wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau ymddangosiadol, a'r rheini o sylwedd, ystyriem oblygiadau hynny i'n hadroddiad.

### Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2013 ac o incwm a gwariant y Brifysgol, a'i henillion a'i cholledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â'r Arferion Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch.

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL (parhad)

---

### **Barn ar faterion eraill a ragnodwyd yng Nghod Ymarfer Archwilio CCAUC a gyhoeddwyd yn ôl Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992**


Yn ein barn ni, ym mhob agwedd o sylwedd:

- mae'r cyllid a dderbyniwyd gan y Brifysgol at ddibenion penodol wedi'i ddefnyddio yn briodol at y dibenion hynny;
- mae incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â Statudau'r Brifysgol; ac
- mae'r cyllid a ddarparwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi'i ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol ac unrhyw delerau ac amodau cysylltiedig eraill.

### **Materion y mae'n ofynnol arnom roi adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennym ddim byd i roi adroddiad arnynt ynghylch y mater isod lle mae Cod Ymarfer Archwilio CCAUC a gyhoeddwyd yn ôl Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn ei gwneud hi'n ofynnol arnom roi adroddiad ichi pe bai, yn ein barn ni:

- y datganiad o reolaeth fewnol sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r Datganiad ar Reolaeth Gorfforaethol yn anghyson â'r wybodaeth sydd gennym ni am y Brifysgol.



**Trevor Rees**

**Ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol  
Cyfrifwyr Siartredig**

**13 Rhagfyr 2013**

## DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIÂU CYFRIFEG

---

### 1 SAIL PARATOI'R CYFRIFON

- 1.1 Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â chonfensiwn y gost wreiddiol, wedi ei addasu ar ôl ailbriso tir ac adeiladau, ac yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch, y Safonau Cyfrifeg perthnasol a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC.
- 1.2 Ni pharatowyd datganiadau ariannol cyfansawdd sy'n ymgorffori Abertec Cyf, See3D Cyf a Khaydor Cyf sef is-gwmniau'r Brifysgol, gan nad ystyrir bod canlyniadau, asedion na rhwymedigaethau'r cwmniau hyn yn sylweddol.
- 1.3 Nid yw'r datganiadau yn cynnwys rhai Urdd Myfyrwyr Aberystwyth, lle nad oes gan y Brifysgol unrhyw gyllid, na rheolaeth na dylanwad arwyddocaol ar benderfyniadau polisi.
- 1.4 Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes cyfredol.

### 2 CYDNABOD INCWM

- 2.1 Cynhwyswyd incwm o Grantiau Ymchwil a Chontractau ac o ffynonellau cyfyngedig eraill, i'r graddau bod y contract neu'r gwasanaeth dan sylw wedi'i gwblhau. Mae hyn fel rheol yn gyfwerth â'r gwariant yn ystod y flwyddyn, ynghyd â chyfraniadau cysylltiedig tuag at argostau.
- 2.2 Mae incwm o hyfforddiant a ffioedd neuaddau yn cael ei gydnabod am y cyfnod am yr hwn y'i derbynir ac yn cynnwys yr holl ffioedd a godir ar fyfyrwyr neu eu noddwyr. Mewn achosion lle mae swm y ffi hyfforddiant neu neuadd yn cael ei hepgor neu ei leihau, mae'r incwm derbyniadwy yn cael ei ddangos heb y disgownt. Mae hyn yn cynrychioli newid polisi cyfrifo o 2011/12 gan fod incwm ffioedd yn cael ei gofnodi yn ei grynsyth gynt cyn y didyniad am hepgoriadau. Mae Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau yn cael eu cyfrif fel costau o fewn gwariant. Os bydd y mwyafrif o fyfyrwyr yn derbyn bwrsariaeth neu ysgoloriaeth caiff ei drin fel hepgoriad ffi ac yn net o fewn incwm.
- 2.3 Mae Rhoddion Elusennol yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon pan fo'r rhodd elusennol wedi'i derbyn, neu os nad yw wedi'i derbyn eto, pan fo digon o dystiolaeth fel y gellir bod yn sicr y bydd y rhodd yn cael ei derbyn a bod modd mesur gwerth yr adnoddau a ddaw gyda chryn sicrwydd.
- 2.4 Os yw rhoddion elusennol yn mynd i gael eu cadw er budd y sefydliad yn y modd a nodir gan y rhoddwyr, fe'u cyfrifir yn waddolion. Tri phrif fath o waddol sydd:
  - (i) Gwaddolion Parhaol Difyfyngiad – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaus i gynhyrchu llif incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
  - (ii) Gwaddolion Parhaol Penodol – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaus i gynhyrchu llif incwm i'w defnyddio at ryw fwrriad penodol.
  - (iii) Gwaddolion Treuliadwy Penodol – mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol ac eithrio prynu nac adeiladu asedau cyffyrddadwy sefydlog, ac fe gaiff y sefydliad droi'r swm a roddwyd yn incwm.

Lle bo dymuniadau'r rhoddwyr yn aneglur neu'n anhysbys, yn achos rhoddion a gafwyd cyn 1 Awst 2007, mae'r rhoddion yn dal i gael eu cyfrif yn Waddolion Parhaol yn unol â'r arfer cyfrifeg a arddelwyd pan sefydlwyd y cronfeydd.
- 2.5 Cydnabyddir grantiau adnewyddol oddi wrth y Cynghorau Cyllido yn ystod cyfnod eu derbyn.
- 2.6 Mae grantiau anadnewyddol oddi wrth y Cynghorau Cyllido neu gyrff eraill am bwrcasiadau neu adeiladu asedau sefydlog i'w trin fel grantiau cyfalaf a ohiriwyd a'u hamorteiddio yn unol â dibrisiant dros oes yr asedau. Caiff grantiau anadnewyddol i bwrcas penodol eu cynnwys fel y cânt eu gwario, ac mae unrhyw elfennau na werir yn cael ei trin fel incwm gohiriedig.
- 2.7 Y mae'r holl incwm o adneuo tymor byr yn cael ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod y cyfnod y cafodd ei ennill.

## DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŶAU CYFRIFEG (parhad)

---

### 3 TIR AC ADEILADAU

- 3.1 Ailbrisiwyd eiddo rhydd-ddaliad ac eiddo prydles y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 1994 ar sail gwerth adnewyddu ar ôl dibrisiant. Yn ôl darpariaethau FRS 15, mae'r asedion hyn yn parhau ar brisiad 1994. Mae ychwanegiadau eraill yn cael eu dal yn ôl y gost.

Cedwir tir ar rydd-ddaliad heb ddibrisiant gan yr ystyrir bod iddo ddefnyddioldeb am gyfnod amhenodol.

Mae adeiladau a gyfalafwyd yn cael eu dibrisio dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol, yn unol â'u rhannau cyfansoddol, sef:

Tymor hir e.e. sylfeini ac adeiladwaith	40 i 60 o flynyddoedd
Tymor canolig e.e. gwasanaethau	10 i 30 o flynyddoedd
Tymor byr e.e. gosodiadau mewnol	5 i 10 o flynyddoedd

Mae'r cyfraddau hyn wedi'u rhoi ar waith i bob adeilad newydd o 1 Awst 2011 ymlaen.

Cyn 1 Awst 2011, dibrisiwyd adeiladau dros 40 o flynyddoedd ar sail llinell syth o ddyddiad y prisiad, neu o'u caffael ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae gwaith atgyweirio ac adnewyddu mawr yn cael ei gyfalafu os yw'r gwaith yn creu ased neu'n gwella ased presennol, neu'n gwella neu ailwampio ased yn sylweddol. Mae costau adnewyddu yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio dros gyfnodau amrywiol, hyd at 15 mlynedd.

- 3.2 Lle prynir adeiladau gyda chymorth grantiau penodol cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y nodir uchod. Ystyrir bod y grantiau perthynol yn grantiau cyfalaf gohiriedig ac fe gânt eu rhyddhau i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr adeiladau.
- 3.3 Nid yw asedau yn cael eu dibrisio yn ystod proses adeiladu, cyfrifir amdanynt yn ôl y gost.

### 4 OFFER

- 4.1 Y mae gwariant ar offer sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol yn cael ei ddileu ym mlwyddyn eu prynu. Mae'r holl offer eraill yn cael eu cyfalafu.
- 4.2 Cofnodwyd offer a gyfalafwyd yn ôl ei gost a'i ddibrisio, drwy'r dull llinell syth, dros gyfnod disgwyliedig ei ddefnyddioldeb, sef pum mlynedd, heblaw am offer a gafwyd ar gyfer prosiectau ymchwil penodol sy'n cael ei ddibrisio dros gyfnod y prosiect (sef 3 blynedd fel arfer).
- 4.3 Lle prynir offer gyda chymorth grantiau penodol caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio fel a nodir uchod. Ystyrir bod y grantiau perthynol yn grantiau cyfalaf gohiriedig a chânt eu rhyddhau i incwm dros gyfnod defnyddioldeb disgwyliedig yr offer.

### 5 ASEDAU TREFTADAETH

- 5.1 Paentiadau, gweithiau celfyddydol a darnau o waith seramig ym meddiant y Brifysgol yw asedau treftadaeth. Maent yn cael eu dal a'u cynnal oherwydd eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant yn bennaf. Mae'r eitemau hynny y pennwyd eu gwerth dros £10,000 wedi'u cyfalafu a'u cydnabod yn ôl y gost neu eu gwerth caffael, lle y bo modd cael amcan rhesymol o'r gost neu'r gwerth. Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod eu bywyd economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai sylwedd i unrhyw ddibrisio o'r fath.
- 5.2 Mae unrhyw gostau sy'n codi o waith adfer neu gadwriaethol i'r asedau hyn yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn pan fo'r costau hynny'n codi.

## DATGANIAD AM Y PRIF BOLISIŪAU CYFRIFEG (parhad)

---

### 6 CYNNAL A CHADW

- 6.1 Mae gan y Brifysgol gynllun cynnal a chadw parhaus sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Telir y costau am waith beunyddiol cynnal a chadw o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

### 7 STOC

- 7.1 Ac eithrio'r Ffermydd, nodir stoc yn ôl cost, neu eu pris net wrth eu gwerthu, pa un bynnag yw'r isaf. Cynhwysir stoc y ffermydd yn ôl prisiad marchnad proffesiynol. Ni chynhwysir stoc sydd yn nwylo adrannau dysgu a gwasanaethu ac eithrio Storfeydd Cynnal a Chadw ac Argraffu.

### 8 BUDDSODDIADAU

- 8.1 Mae Buddsoddiadau Asedau Sefydlog wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yn ôl eu cost, ar ôl cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir am golli gwerth.
- 8.2 Mae Buddsoddiadau Asedau Gwaddol wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Ailbrisiwyd Eiddo Asedion Gwaddol ar 31 Gorffennaf 1994 ar sail gwerth adnewyddu ar ôl dibrisiant.

### 9 TRETH

- 9.1 Mae'r Brifysgol yn elusen a gofrestrwyd yn unol â Deddf Elusennau 2006 (Deddf Elusennau 2011). Am hynny mae modd esgusodi'r Brifysgol rhag talu treth ar incwm, ac enillion cyfalaf a gafwyd o fewn y categorïau a geir yn adrannau 478-488 Deddf Treth Gorfforaethol 2010 (a ddeddfwyd gynt yn adran 505 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988), neu adran 256 Deddf Trethu Enillion Taladwy 1992 i'r graddau y mae incwm neu enillion o'r fath wedi eu defnyddio i bwrpas cwbl elusennol.
- 9.2 Mae pob is-gwmni yn talu Treth Gorfforaethol a Threth ar Werth yn union fel unrhyw gorff masnachol arall.
- 9.3 Mae prif gylchoedd gweithredu'r Brifysgol yn cael eu hesgusodi rhag Treth ar Werth, ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn talu Treth ar Werth ar wahanol gyfraddau, mae Gwariant yn cynnwys Treth ar Werth anadferadwy a godwyd gan gyflenwyr i'r Brifysgol.
- 9.4 Mae darpariaeth yn cael ei gwneud am dreth ohiriedig ar gyfer is-gwmnïau drwy'r dull rhwymedigaethau

### 10 TREFNIADAU PENSIWN

- 10.1 Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn tri Chynllun Pensiwn ar wahân: Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), Cronfa Bensiynau Dyfed, a Chynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth. Mae'r ddau gynllun olaf yn rhoi budd-daliadau i'r aelodau o'r staff nad oes hawl ganddynt i ymaelodi â'r Cynllun arall. Mae'r cynlluniau yn rhai â budd-daliadau diffiniedig, wedi eu contractio allan o'r Ail Bensiwn Gladwriaethol. Pennir gwerth y gronfa bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol yn y maes, a'r ymddiriedolwyr sydd yn pennu faint o gyfraniad i'w dalu, yn ôl cyngor yr actiwariaid. Mae'r actiwariaid hyn yn adolygu cynnydd y Cynlluniau yn y blynyddoedd eraill. Asesir costau'r pensiynau yn unol â barn yr actiwariaid yn seiliedig ar y prisiad actiwaraidd diweddaraf yn y Cynlluniau.
- 10.2 Ni all y Brifysgol wybod beth yw ei chyfran hi o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol Cynllun Pensiwn y Prifysgolion ar sail gyson a rhesymol ac felly, yn unol â gofynion Safon Adroddiadau Ariannol 17 "Budd-daliadau Ymddeol", mae'n rhoi cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad mae'r meintiau a dalwyd o'r cyfrif incwm a gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun yn ystod cyfnod y cyfrifon.
- 10.3 Mae'r Brifysgol wedi arddel Safon Adroddiadau Ariannol 17 "Budd-daliadau Ymddeol" yn gyfan gwbl o ran Cronfa Bensiynau Dyfed a Chynllun Pensiynau ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth.



## DATGANIAD AM Y PRIF BOLISI'AU CYFRIFEG (parhad)

---

### 11 DARPARIAETHAU A RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

- 11.1 Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan fo gan y Brifysgol ymrwymiad cyfredol (yn gyfreithiol neu'n adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Y tebyg yw y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw ac fe ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad.
- 11.2 Mae rhwymedigaethau amodol yn cael eu datgelu mewn nodyn, pan nad ydynt yn bodloni diffiniad darpariaeth, ac maent yn cynnwys tair sefyllfa: ymrwymiad posib yn hytrach nag un cyfredol; ei bod hi'n bosib yn hytrach na bod yn debyg y bydd buddiannau economaidd yn mynd allan; does dim modd mesur faint o fuddiannau economaidd fydd yn mynd allan.

### 12 LLIF ARIAN PAROD AC ADNODDAU HYLIF

- 12.1 Mae llif Arian Parod yn cynnwys cynnydd neu ostyngiad mewn arian parod. Mae Arian Parod yn cynnwys arian mewn llaw, adneuron sydd i'w talu pan ofynnir amdanynt, a gorgodiadau. Os yw adneuron ar gael i bob pwrpas o fewn 24 awr heb gosb fe'u cyfrifir yn rhai i'w talu pan ofynnir amdanynt. Ni chynhwysir unrhyw fuddsoddiad, pa mor hylif y bo, mewn arian parod.
- 12.2 Mae adnoddau hylif yn cynnwys asedion a ddelir ar ffurf storfa o werth y gellir cael gwared ag ef yn rhwydd. Maent yn cynnwys adneuron tymor, gwarannau'r llywodraeth a stociau benthyciad a ddelir yn rhan o weithgareddau rheoli trysordy'r Brifysgol. Nid ydynt yn cynnwys asedion a ddelir fel Buddsoddiadau Asedion Gwaddol.

### 13 PRYDLESAU

- 13.1 Mae pob prydles yn brydles weithredol ac mae'r taliadau llogi wedi eu rhoi yn y cyfrif incwm a gwariant ar sail llinell syth tra bo'r brydles yn parhau.

### 14 NEWIDIADAU MEWN POLISI CYFRIFEG AC ADDASIADAU I'R FLWYDDYN FLAENOROL

- 14.1 Mae cost bwrsariaeth llety nawr wedi ei ddatgan fel lleihad i incwm yn hytrach na gwariant.
- 14.2 Mae Grantiau Cyfalaf sydd wedi eu defnyddio i ariannu gwaith sydd ar y gweill bellach wedi eu datgan o fewn Grantiau Cyfalaf Gohiriedig.

## CYFRIF INCWM A GWARIANT am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2013

		2013	2012
INCWM	Nodyn	£'000	£'000
Grantiau'r Cyrff Cyllido	1	25,808	38,667
Ffioedd Dysgu	2	49,191	34,389
Grantiau a Chontractau Ymchwil	3	18,422	19,942
Incwm Arall	4	24,569	26,502
Incwm Gwaddolion a Buddsoddiadau	5	1,234	892
Cyfanswm Incwm		<u>119,224</u>	<u>120,392</u>
<b>GWARIANT</b>			
Costau Staff - Gweithredu	6	66,959	64,995
- Ad-drefnu	6	1,022	1,024
Gwariant Gweithredu Arall	8	42,008	45,081
Dibrisiant	8	8,352	8,428
Llog a Chostau Cyllid Eraill	7	684	241
Cyfanswm Gwariant	8	<u>119,025</u>	<u>119,769</u>
Gweddill ar Weithgareddau Parhaus ar ôl Dibrisiant Asedau Cyn Treth ac ar ôl Treth		199	623
Gweddill a Drosglwyddwyd i Incwm a Gronnir o fewn Cronfeydd Gwaddol		(127)	(116)
Gweddill/(Diffyg) a Gedwir o fewn yr Arian Cyffredinol wrth Gefn	17	<u>72</u>	<u>507</u>

Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn disgrifio gweithgareddau parhaus.

## NODYN AR Y GWEDDILL A'R DIFFYG YN ÔL Y GOST WREIDDIOL am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2013

		2013	2012
		£'000	£'000
Gweddill ar Weithgareddau Parhaus ar ôl Dibrisiant Asedau, Gwerthu Asedau, cyn ac ar ôl Treth		199	623
Gwahaniaeth rhwng Tâl am Ddibrisiant yn ôl y Gost Wreiddiol a'r Gwir Dâl am Ddibrisiant am y Flwyddyn ar Sail yr Ailbrisiad	18	1,989	1,990
<b>GWEDDILL YN ÔL Y GOST WREIDDIOL AR ÔL TRETH</b>		<u>2,188</u>	<u>2,613</u>

## MANTOLEN ar 31 Gorffennaf 2013

	Nodyn	2013 £'000	2012 £'000
<b>ASEDION SEFYDLOG</b>			
Asedion Cyffyrddadwy	9	151,144	152,914
Buddsoddiadau		115	166
<b>ASEDION GWADDOL</b>			
<b>ASEDION CYFREDOL</b>			
Stociau		2,089	2,158
Dyledwyr: Dyledus o fewn blwyddyn	11	16,939	20,371
Dyledwyr: Dyledus ar ôl mwy na blwyddyn	11	104	156
Dyledwyr: Cyfanswm		17,043	20,527
Buddsoddiadau – Adneuo Arian Parod		177	11,216
Arian Parod yn y Banc ac Mewn Llaw		22,291	5,012
		<u>41,600</u>	<u>38,913</u>
<b>RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL</b>			
Credydwyr: Arian sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	12	(31,950)	(27,256)
Gorddrafft Banc		0	(5,839)
		<u>(31,950)</u>	<u>(33,095)</u>
<b>ASEDION CYFREDOL NET</b>			
		<u>9,650</u>	<u>5,818</u>
<b>CYFANSWM ASESION WEDI TYNNU RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL</b>			
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	13	(9,502)	(10,181)
Darpariaethau am rwymedigaethau a thaliadau	14	(949)	(949)
<b>ASEDION NET AC EITHRIO RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU</b>			
RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU	25	(17,556)	(24,336)
<b>ASEDION NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU</b>			
		<u>174,564</u>	<u>161,400</u>
<b>GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG</b>			
<b>GWADDOLION</b>			
Treuliadwy	16	609	62
Parhaol	16	41,053	37,906
		<u>41,662</u>	<u>37,968</u>
<b>ARIAN WRTH GEFN</b>			
Arian Wrth Gefn – Cyffredinol, ac eithrio Pensiynau		53,869	51,606
Arian Wrth Gefn – Pensiynau	25	(17,556)	(24,336)
Arian Wrth Gefn – Cyffredinol, gan gynnwys Pensiynau	17	36,313	27,270
Arian Wrth Gefn at Ailbrisio	18	41,933	43,922
		<u>78,246</u>	<u>71,192</u>
<b>CYFANSWM</b>			
		<u>174,564</u>	<u>161,400</u>

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol a geir rhwng tudalennau 11 a 45 gan y Cyngor ar 13 Rhagfyr 2013, a'u llofnodi ar ei ran gan:

Dr Timothy Brain, Trysorydd  
Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor

*Timothy Brain*  
*April McMahon*

## DATGANIAD O'R ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2013

	Nodyn	2013 £'000	2012 £'000
Gweddill ar Weithgareddau Parhaus ar ôl Dibrisiant Asedau, Gwerthu Asedau ac ar ôl Treth		199	623
Addasiad i'r Flwyddyn Flaenorol: Gweddill heb ei wireddu ar Asedau Treftadaeth		0	(1,699)
Arbrisiant Gwerth Buddsoddiadau Gwaddol	16	2,983	411
Gwaddolion Newydd	16	584	379
Enillion/(Colled) Actiwaraidd ar Gynlluniau Pensiwn	25	6,982	(6,240)
<b>CYFANSWM YR ENILLION/(COLLEDION) CYDNABYDDEDIG AM Y FLWYDDYN</b>		<u>10,748</u>	<u>(6,526)</u>
Cysoni::			
Arian Wrth Gefn a Gwaddolion Wrth Gychwyn		109,160	
Cyfanswm y Colledion Cydnabyddedig am y Flwyddyn		<u>10,748</u>	
Arian Wrth Gefn a Gwaddolion Wrth Orffen		<u>119,908</u>	

## DATGANIAD LLIF ARIAN am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2013

	Nodyn	2013 £'000	2012 £'000
Mewnlif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol	21	12,631	2,831
Enillion ar Fuddsoddiadau a Gwasanaethu Cyllid	22	1,234	892
Gwario Cyfalaf a Buddsoddi Cyllidol	23	(2,015)	(6,563)
Mewnlif/(All-lif) Arian cyn Defnyddio Adnoddau Hylif a Chyllido		11,850	(2,840)
Rheoli Adnoddau Hylif	24	11,039	(845)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian Parod	24	22,889	(3,685)

## CYSONI LLIF ARIAN NET PAROD Â SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD NET

		2013 £'000	2012 £'000
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian Parod yn ystod y Flwyddyn	24	22,889	(3,685)
Llif Arian o Adnoddau Hylif	24	(11,039)	845
Newid mewn Cronfeydd Net		11,850	(2,840)
Cronfeydd Net ar 1 Awst		19,231	22,071
Cronfeydd Net ar 31 Gorffennaf	24	31,081	19,231

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

	2013 £'000	2012 £'000
1) GRANTIAU CYRFF CYLLIDO		
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru		
Grantiau Adnewyddol	18,008	28,876
Grantiau Penodol	3,614	6,985
Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a Ryddhawyd yn ystod y Flwyddyn		
Adeiladau (Nodyn 15)	981	981
Offer (Nodyn 15)	883	984
Llywodraeth Cymru Adran Addysg a Sgiliau	418	841
Arall	1,904	
	<u>25,808</u>	<u>38,667</u>
2) FFIOEDD DYSGU		
Myfyrwyr Amser Llawn Cartref a'r UE	40,942	27,453
Myfyrwyr Amser Llawn Rhyngwladol	6,764	4,958
Myfyrwyr Rhan Amser	686	1,075
Cyrsiau Byrion a Ffioedd Eraill	799	903
	<u>49,191</u>	<u>34,389</u>
3) GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL		
Cynghorau Ymchwil ac Elusennau	8,858	9,786
Diwydiant a Masnach	1,233	1,827
Llywodraeth	8,184	8,201
Grantiau a Chontractau Eraill	147	128
	<u>18,422</u>	<u>19,942</u>
Mae grantiau a chontractau yn cynnwys £407,000 o Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn		
4) INCWM ARALL		
Llety, Arlwyo a Chynadleddau (Nodyn 27)	8,320	9,464
Gwasanaethau Eraill a Roddwyd	4,615	3,611
Canolfan y Celfyddydau (Nodyn 28)	3,971	3,800
Ffermydd	1,555	2,134
Ryddhawyd o Grantiau Cyfalaf Gohiriedig (Nodyn 15)	1,668	2,028
Incwm Arall	4,440	5,465
	<u>24,569</u>	<u>26,502</u>
Mae cost bwrsariaeth llety nawr wedi ei ddatgan yn lleihad i incwm yn hytrach na gwariant.		
Cafodd costau bwrsariaeth o £0.9m eu cynnwys yn net o fewn incwm yn 2012-13, Dangoswyd costau bwrsariaeth o £1.2m fel gwariant yn 2011-12. Pe cyflwynir 2011-12 yn yr un modd â 2012-13, yna cyfanswm incwm y Brifysgol yn 2011-12 fyddai £119.2m.		
5) INCWM GWADDOLION A BUDDSODDIADAU		
Incwm o Waddolion (Nodyn 16)	929	574
Incwm o Fuddsoddiadau Tymor Byr	305	318
	<u>1,234</u>	<u>892</u>

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

	2013 £'000	2012 £'000
6) COSTAU STAFF		
Costau Staff - Gweithredol:		
Cyflogau	54,251	52,781
Costau Nawdd Cymdeithasol	4,086	4,003
Costau Pensiwn Eraill (Nodyn 25)	8,622	8,211
Cyfanswm Costau Staff (Nodyn 8)	<u>66,959</u>	<u>64,995</u>
Costau Staff - Ad-drefnu:		
Taliadau yn ystod y flwyddyn	<u>1,022</u>	<u>1,024</u>
Taliadau i'r Is-Ganghellor		
Cyflog	228	208
Cyfraniadau Pensiwn	<u>24</u>	<u>22</u>
	<u>252</u>	<u>230</u>

Nifer y staff, gan gynnwys yr Is-Ganghellor, a gafodd daliadau o fewn y rhychwantau isod oedd:

	2013 Rhif	2012 Rhif
£100,000-£109,999	1	1
£110,000-£119,999	1	0
£120,000-£129,999	2	1
£130,000-£139,999	1	1
£140,000-£149,999	1	0
£200,000-£209,999	0	2
£220,000-£229,999	0	1
£250,000-£259,999	1	0

Mae taliadau'r Is-Ganghellor a staff eraill ar gyflogau uchel yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) sydd ar yr un raddfa â'r hyn a delir ar ran staff academiaidd a pherthynol eraill.

Y nifer ar gyfartaledd a gyflogwyd gan y Brifysgol yn ystod y cyfnod wedi ei fynegi'n gyfatebol ag amser llawn:

	2013 Rhif	2012 (AILDDATGAN) Rhif
Addysgu Academiaidd ac Ymchwil	655	641
Technegol, Gweinyddol ac Ategol	935	909
	<u>1,590</u>	<u>1,550</u>

Mae ffigwr 2011-12 wedi ei ailddatgan i ddangos y nifer ar gyfartaledd a gyflogwyd gan y Brifysgol yn ystod y flwyddyn wedi ei fynegi'n gyfatebol ag amser llawn yn hytrach na'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

	2013 £'000	2012 £'000
7) LLOG A DALWYD A CHOSTAU CYLLID ERAILL		
Taliadau Net ar y Cynllun Pensiynau (Nodyn 25)	<u>684</u>	<u>241</u>

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

### 8) DADANSODDIAD O GYFANSWM GWARIANT YN ÔL GWEITHGAREDDAU

	Costau Staff			Treuliau Gweithredu Eraill	LLog a Dalwyd	2013 Cyfanswm	2012 Cyfanswm
	Gweith- redu	Ad-drefnu	Dibrisiant				
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adrannau Academaidd	31,634	8	1,486	6,131	0	39,259	39,501
Ffermydd	650	0	157	1,416	0	2,223	3,068
Gwasanaethau Academaidd	4,669	0	49	3,160	0	7,878	7,061
Grantiau a Chontractau Ymchwil	8,675	0	408	6,061	0	15,144	14,582
Llety, Arlwyo a Chynadleddau (Nodyn 27)	3,811	0	230	3,439	0	7,480	8,360
Adeiladau	3,330	0	5,451	4,449	0	13,230	13,808
Gwariant Addysgol Cyffredinol	2,237	5	52	9,455	0	11,749	12,662
Gweinyddiaeth	6,186	0	127	1,879	0	8,192	7,958
Cyfleusterau a Mwynderau i'r Staff a'r Myfyrwyr	2,448	0	65	435	0	2,948	2,855
Gwasanaethau Eraill a Roddwyd	1,684	0	42	2,606	0	4,332	2,629
Canolfan y Celfyddydau (Nodyn 28)	1,770	0	285	1,965	0	4,020	3,823
Taliadau i Archwilwyr	0	0	0	50	0	50	61
Cymhwysiad i Gostau Pensiynau FRS 17	(482)	0	0	0	684	202	(507)
Treuliau Eraill	347	1,009	0	962	0	2,318	3,908
	<b>66,959</b>	<b>1,022</b>	<b>8,352</b>	<b>42,008</b>	<b>684</b>	<b>119,025</b>	<b>119,769</b>

Mae'r gwariant ar ffermydd nawr wedi ei ddatgelu ar wahân. Roedd wedi ei gynnwys o fewn Adrannau Academaidd o'r blaen. Mae cost bwrsariaeth llety wedi ei ddatgan fel lleihad i incwm yn hytrach na gwariant.

Mae Treuliadau Eraill yn cynnwys taliadau i Archwilwyr Allanol y Brifysgol am wasanaethau heblaw am archwiliad, sef cyfanswm o £35,892 (2011/12: £55,200). Talwyd y ffioedd hyn am y gwasanaethau isod:

Gwasanaethau cysylltiedig ag archwiliad:

Archwilio grantiau penodol ac archwilio data cyllid: £22,092 (2011/12: £35,400)

Gwasanaethau treth:

Paratoi ar gyfer cyfrifo treth gorfforaethol: £13,800 (2011/12: £19,800)

Taliadau i Aelodau o Gyngor y Brifysgol

Ni chafodd yr un aelod o'r Cyngor dâl gan y Brifysgol am weithredu fel aelod o'r Cyngor yn ystod y flwyddyn (2011/12: DIM). Nid yw aelodau o staff y Brifysgol sy'n cael eu penodi i'r Cyngor yn cael unrhyw dâl ychwanegol yn rhinwedd eu haelodaeth o'r Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn ni chafodd unrhyw aelod o'r Cyngor dâl am wasanaethau eraill i'r Brifysgol, ac eithrio taliadau o dan gontractau cyflogaeth i'r aelodau hynny o'r Cyngor sydd hefyd yn aelodau o staff cyflogedig y Brifysgol (2011/12: Dim).

Talwyd cyfanswm o £14,101 o dreuliau i, neu ar ran, 9 o aelodau'r Cyngor (2011/12: £12,300 i 9 o aelodau'r Cyngor). Mae hyn am gostau teithio a chynhaliadau sy'n codi o ganlyniad i'w presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn rhinwedd eu dyletswyddau swyddogol.



## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

## 9) ASEDION SEFYDLOG CYFFYRDDADWY

	Tir ac Adeiladau				Offer				Cyfanswm £'000
	Rhydd-daliad £'000	Prydles Hir £'000	Gwaith yn mynd rhagddo £'000	Gweith- redol £'000	Work in Progress £'000	Meddal- wedd	Asedau Trefnadaeth £'000		
<b>COST NEU BRISIAD</b>									
Ar 1 Awst 2012									
Prisiad	130,489	2,981	0	0	0	0	1,347	134,817	
Cost	72,065	354	3,424	36,278	1,822	326	0	114,269	
Ychwanegiadau yn ôl cost	177	259	2,215	3,443	488	0	0	6,582	
Adeilad wedi cwblhau	441	815	(1,256)	510	(510)	0	0	0	
Ar 31 Gorffennaf 2013	<u>203,172</u>	<u>4,409</u>	<u>4,383</u>	<u>40,231</u>	<u>1,800</u>	<u>326</u>	<u>1,347</u>	<u>255,668</u>	
Prisiad	130,489	2,981	0	0	0	0	1,347	134,817	
Cost	72,683	1,428	4,383	40,231	1,800	326	0	120,851	
	<u>203,172</u>	<u>4,409</u>	<u>4,383</u>	<u>40,231</u>	<u>1,800</u>	<u>326</u>	<u>1,347</u>	<u>255,668</u>	
<b>DIBRISANT</b>									
Ar 1 Awst 2012	64,374	487	0	31,246	0	65	0	96,172	
Cost am y flwyddyn	5,692	110	0	2,485	0	65	0	8,352	
Ar 31 Gorffennaf 2013	<u>70,066</u>	<u>597</u>	<u>0</u>	<u>33,731</u>	<u>0</u>	<u>130</u>	<u>0</u>	<u>104,524</u>	
<b>GWERTH NET YN ÔL Y LLYFR</b>									
Ar 31 Gorffennaf 2013	<u>133,106</u>	<u>3,812</u>	<u>4,383</u>	<u>6,500</u>	<u>1,800</u>	<u>196</u>	<u>1,347</u>	<u>151,144</u>	
Ar 1 Awst 2012	<u>138,180</u>	<u>2,848</u>	<u>3,424</u>	<u>5,032</u>	<u>1,822</u>	<u>261</u>	<u>1,347</u>	<u>152,914</u>	

Prisiwyd eiddo'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 1994 gan y Swyddog Adeiladau, Mr P S Robinson FRICS, ar sail gwerth adnewyddu ynghyd â dibrisiant, ac eithrio lle roedd gwerth y farchnad at ddefnydd presennol ar gael, ac yn yr achosion hynny dyna'r gwerth a ddefnyddiwyd. Prisiwyd eiddo a drosglwyddwyd o Goleg Amaethyddol Cymru yn yr un modd ar 1 Mawrth 1995.

Cafodd y tir a'r adeiladau a feddiannwyd o IGER eu priso yn ôl yr un sail gan Mr J H Jones FRICS, prisiwr allanol annibynnol, yn unol â llawlyfr arfarnu a phrisio RICS. Mae'r brydles ar yr eiddo prydles a feddiannwyd o IGER yn parhau tan 31 Mawrth 2015 ac fe ellir ei hadnewyddu am gyfnod ychwanegol, sef saith mlynedd, os bydd y Brifysgol yn dewis gwneud hynny.

Mae Asedau Trefnadaeth yn cyfeirio at Gasgliad Celfyddyd Gain y Brifysgol a brisiwyd gan Webb Valuations Fine Art Cyf ym mis Mawrth 2011.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

	2013	2012
	£'000	£'000
10) ASEDION GWADDOL	37,968	37,062
Gweddill ar 1 Awst	584	379
Ychwanegiadau i Fuddsoddiadau	2,983	411
Arbrisiant wrth Ailbriso (Nodyn 16)	127	116
Cynnydd Gweddill Refeniw	<u>41,662</u>	<u>37,968</u>
Gweddill ar 31 Gorffennaf		
 Cynrychiolwyd gan:		
Stociau Llog Sefydlog	5,856	5,831
Ecwitïau	23,115	19,423
Ymddiriedolaeth Uned Eiddo	1,341	1,080
Gweddill yn y Banc	581	1,074
Cyfanswm Buddsoddiadau	<u>30,893</u>	<u>27,408</u>
 Tir ac Eiddo	2,654	2,654
Gweddill Refeniw	<u>8,115</u>	<u>7,907</u>
	<u>41,662</u>	<u>37,969</u>
 11) DYLEDWYR	2013	2012
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn un blwyddyn:		
Dyledwyr Masnachol ac Eraill	9,064	9,798
Gweddillion Ymchwil	6,045	8,543
Rhagdaliadau ac Incwm Cronedig	<u>1,830</u>	<u>2,030</u>
	<u>16,939</u>	<u>20,371</u>
 Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:		
Benthyciad i Urdd y Myfyrwyr	<u>104</u>	<u>156</u>
 12) CREDDWYR: ARIAN SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN	2013	2012
	£'000	£'000
Benthyciadau heb Sicrwydd	45	39
Taliadau a Dderbyniwyd yn Ernes	1,994	660
Credydwyr masnachol ac eraill	2,682	10,598
Nawdd Cymdeithasol a Thaliadau Treth Eraill	2,900	998
Gweddillion Grantiau Ymchwil	10,915	4,430
Incwm Gohiriedig o Brydles Pentref y Myfyrwyr	679	679
Croniadau ac Incwm Gohiriedig Arall	<u>12,735</u>	<u>9,852</u>
	<u>31,950</u>	<u>27,256</u>

Mae Grantiau Cyfalaf sydd wedi eu defnyddio i ariannu gwariant ar waith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd wedi eu datgelu o fewn Grantiau Cyfalaf Gohiriedig. Cawsant eu datgelu o'r blaen o dan Credydwyr.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

	2013	2012
	£'000	£'000
13) CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG		
Incwm gohiriedig o Brydles Pentref y Myfyrwyr	9,502	10,181
	9,502	10,181

Mae'r Incwm Gohiriedig o Brydles Pentref y Myfyrwyr yn ymwneud â'r taliadau a gafwyd o brydles llety myfyrwyr i Dai Cartrefi Cyf am 25 o flynyddoedd.

Yn ôl telerau'r cytundeb, prydleswyd yr eiddo i Dai Cartref Cyf am 25 o flynyddoedd am gyfanswm o £16.9 miliwn. Mae hynny'n golygu bod Tai Cartref Cyf yn cael llif incwm sicr o osod yr eiddo am gyfnod y brydles.

Mae sawl agwedd ar y trefniadau yn golygu mai'r Brifysgol sy'n cadw rhai o'r risgiau a'r manteision sy'n deillio o berchen ar yr eiddo drwy gyfnod y brydles. Y Brifysgol sy'n cadw rhydd-daliad yr eiddo a brydesir, a phan ddaw'r cytundeb 25-blynedd i ben, daw'r eiddo yn ôl i'r Brifysgol heb iddi orfod talu dim.

Mae'r £16.9 miliwn a gafodd y Brifysgol yn cael ei drin fel incwm gohiriedig ac mae'n cael ei ryddhau i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail llinell syth drwy gydol cyfnod y brydles.

14) DARPARIAETHAU AM RWYMEDIGAETHAU A THALIADAU		£'000
Ar 1 Awst 2012		949
Cyfrif Incwm a Gwariant		-
Ar 31 Gorffennaf 2013		949

Mae'r ddarpariaeth hon yn cyfeirio at amcangyfrif gorau'r Brifysgol o'r rhwymedigaethau cysylltiedig â gweithgareddau masnachu'r ffermydd gan gynnwys rhwymedigaethau TAW i Gyllid a Thollau EM.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

15) GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG	Cyngor Cyllido £'000	Grantiau Eraill £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Awst 2012			
Adeiladau	21,499	27,234	48,733
Offer	2,000	1,507	3,507
Cyfanswm	23,499	28,741	52,240
Trosglwyddwyd o Gredydwy			
Adeiladau	0	615	615
Offer	0	1,757	1,757
Cyfanswm	0	2,372	2,372
Arian a Dderbyniwyd			
Adeiladau	445	16	461
Offer	182	3,340	3,522
Cyfanswm	627	3,356	3,983
Rhyddhawyd i Incwm a Gwariant			
Adeiladau (Nodyn 1)	981	993	1,974
Offer (Nodyn 1)	883	1,082	1,965
Cyfanswm	1,864	2,075	3,939
Ar 31 Gorffennaf 2013			
Adeiladau	20,963	26,872	47,835
Offer	1,299	5,522	6,821
Cyfanswm	22,262	32,394	54,656

O'r £2,075k sydd wedi ei ryddhau i Incwm a Gwariant mewn perthynas â Grantiau Eraill, caiff £1,688k ei ddangos o fewn Incwm Arall a £407k o fewn Grantiau Ymchwil.

Datgelir Grantiau Cyfalaf a ddefnyddiwyd i ariannu gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn i Grantiau Cyfalaf Gohiriedig bellach. Fe'u datgelwyd gynt o dan Credydwy

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

	Parhaol Digyfngiad £'000	Parhaol Penodol £'000	Cyfanswm Parhaol £'000	Treuliadwy Penodol £'000	Cyfanswm
16) GWADDOLION					
Ar 1 Awst 2012	19,630	18,276	37,906	62	37,968
Gwaddolion newydd		4	4	580	584
Trosglwyddiad		(44)	(44)	44	0
Incwm o Fuddsoddiadau	466	482	948	3	951
Gwariant	(457)	(276)	(733)	(91)	(824)
	9	206	215	(88)	127
Cynnydd yng Ngwerth y Buddsoddiadau ar y Farchnad	1,472	1,500	2,972	11	2,983
Ar 31 Gorffennaf 2013	21,111	19,942	41,053	609	41,662

	2013 £'000	2012 £'000
17) SYMUDIADAU ARIAN WRTH GEFN CYFFREDINOL		
Ar 1 Awst	27,270	31,013
Gweddill/(Diffyg) ar Weithgareddau parhaus cyn trosglwyddo o Arian Wrth Gefn at Ailbrisiio	72	507
Addasiad i'r Flwyddyn Flaenorol Trosglwyddwyd o Arian Wrth Gefn at Ailbrisiio (Nodyn 18)	1,989	1,990
Enillion/(Colled) Actiwaraidd ar Rwymedigaeth y Cynllun Pensiynau (Nodyn 25)	6,982	(6,240)
Ar 31 Gorffennaf	36,313	27,270

	2013 £'000	2012 £'000
18) ARIAN WRTH GEFN AT AILBRISIO		
Ar 1 Awst	43,922	45,912
Trosglwyddwyd o Arian Wrth Gefn at Ailbrisiio i Arian Wrth Gefn Arall sy'n gysylltiedig â: Dibrisio Asedion a Ailbrisiwyd	(1,989)	(1,990)
Ar 31 Gorffennaf	41,933	43,922

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

	2013 £'000	2012 £'000
19) YMRWYMIADAU		
i) Ymrwymadau Cyfalaf: wedi eu contractio ar 31 Gorffennaf	46,467	-
	<u>46,467</u>	
ii) Ymrwymadau blynyddol dan brydlesau gweithredol na ellir eu dileu, ar Dir ac Adeiladau sy'n dod i ben ar ôl pum mlynedd	<u>321</u>	<u>302</u>

### 20) PARTÏON CYSYLLTIEDIG

#### CYNLLUN PENSIWN AC ASWIRIANT PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Mae'r Brifysgol yn cynnal gwasanaeth rhestr cyflogau ar ran y Cynllun Pensiwn ac Aswariant. Ni chodir tâl am ei weinyddu. Telir pensiynau gan y Brifysgol ar ran y cynllun, a'u talu'n ôl fesul cyfnod heb log. Roedd y Cynllun Pensiwn yn ddyledwr ar ddiwedd y flwyddyn, sef £4,704,051 (2011/12 dyledwr £4,237,524).

#### ISGWMNÏAU

##### Abertec Cyf

Y Brifysgol yw perchennog yr holl gyfalaf cyfranddaliadau a roddwyd i Abertec Cyf, cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n cyflawni gwaith ymchwil ar gontract ar ei ran. Roedd Abertec Cyf yn ddyledwr ar ddiwedd y flwyddyn, sef £36 (2011/12 £37,000). Hefyd mae'r Brifysgol wedi darparu benthyciad i'r Brifysgol (sef £126,748 2011/12), ac roedd £18,896 ohono'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

##### See3D Cyf

Mae'r Brifysgol yn berchen ar 75% o holl gyfalaf y cyfranddaliadau a gyhoeddwyd i See 3D Cyfyngedig, cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Rhoddodd y cwmni hwn y gorau i fasnachu yn 2012/13. Yn ystod y flwyddyn talodd Prifysgol Aberystwyth £2,000 (2012: £8,800) i See3D.

##### Khaydor Cyf

Mae'r Brifysgol yn berchen ar 100% o Khaydor Cyf, cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Nid oes trafodion trydydd partïon na gweddiill sydd angen eu datgelu.

Mae datganiadau ariannol y cwmnïau hyn heb gael eu cysoni â datganiadau ariannol y Brifysgol (Polisi Cyfrifeg 1.2).

Gosodir y canlyniadau a'r asedau a'r rhwymedigaethau net isod:

	Abertec Cyf		See3D Cyf	
	2013 £'000	2012 £'000	2013 £'000	2012 £'000
Crynodeb o'r Cyfrif Elw a Cholled				
Trosiant	264	303	36	166
Llog Derbynadwy		0		0
Gwariant	(213)	(263)	(64)	(180)
Treth		0		0
Elw/(Colled) am y Flwyddyn ar ôl tynnu treth	<u>51</u>	<u>40</u>	<u>(28)</u>	<u>(14)</u>
Crynodeb o'r Fantolen				
Asedau Sefydlog	0	0	0	0
Asedau/(Rhwymedigaethau) Cyfredol Net	69	18	0	95
Asedau/(Rhwymedigaethau) Net	<u>69</u>	<u>18</u>	<u>0</u>	<u>95</u>
Cyfalaf ac Arian Wrth Gefn	<u>69</u>	<u>18</u>	<u>0</u>	<u>95</u>

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

### 20) PARTIÖN CYSYLLTIEDIG (parhad)

#### URDD Y MYFYRWYR, ABERYSTWYTH

Corff ar wahân yw Urdd y Myfyrwyr, wedi ei gyllido gan y Brifysgol trwy grant. Fe'i gweinyddir gan swyddogion a etholwyd o blith y myfyrwyr, er budd y myfyrwyr.

Roedd grant y Brifysgol i Urdd y Myfyrwyr yn £549,810 (2011/12 £626,772).

Mae'r Urdd yn dal adeilad sy'n eiddo i'r Brifysgol. Ni chodir rhent am hyn, ac ni chodir tâl am wasanaethau rhestr cyflogau y mae'r Brifysgol yn eu rhoi iddi. Mae'r Brifysgol wedi rhoi darpariaeth benthyciad i Urdd y Myfyrwyr o £760,000. Roedd £104,000 (2011/12 £156,000) ohono yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl iddo gael ei ddefnyddio i dalu am yr estyniad i adeilad yr Urdd. Y mae hwn yn fenthyciad di-log ac mae'r gweddill i'w dalu'n ôl rhwng 2013 a 2014. Ysgrifennwyd £52,000 i ffwrdd yn 2012-13.

21)	CYSONI'R GWEDDILL GWEITHREDOL Â'R MEWNLIF NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL	2013 £'000	2012 £'000
	Gweddill/(Diffyg) ar Weithgareddau Parhaus ar ôl Dibrisiant Asedion a Threth Dibrisiant	199 8,352	623 8,428
	Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a Ryddhawyd i Incwm	(3,939)	(3,993)
	Incwm o Fuddsoddiadau	(1,234)	(892)
	Llog sy'n Daladwy	684	241
	Costau Pensiynau ar ôl Tynnu'r Cyfraniadau Taladwy	(482)	(748)
	Gostyngiad mewn Stociau	69	299
	Gostyngiad mewn Dyledwyr	3,484	2,707
	Cynnydd mewn Dyledwyr Gwaddol	(940)	(28)
	Gostyngiad mewn Buddsoddiadau	51	(51)
	Cynnydd mewn Credydwyr, Croniadau ac Incwm Gohiriedig	6,387	(3,755)
	Mewnlif/(All-lif) Arian Net o Weithgareddau Gweithredol	12,631	2,831
22)	ENILLION AR FUDDSODDIADAU A GWASANAETHU CYLLID	2013 £'000	2012 £'000
	Incwm o Waddoliadau	929	574
	Llog Arall a Dderbyniwyd (Nodyn 5)	305	318
	Mewnlif Arian Net o Enillion ar Fuddsoddiadau a Gwasanaethu Cyllid	1,234	892
23)	GWARIO CYFALAF A BUDDSODDI CYLLIDOL	2013 £'000	2012 £'000
	Taliadau i brynu Asedion Sefydlog	(6,582)	(14,254)
	Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a Gafwyd (Nodyn 15)	3,983	7,312
	Gwaddolion a Gafwyd (Nodyn 16)	584	379
	All-lif Arian Net o Wario Cyfalaf a Buddsoddi Cyllidol	(2,015)	(6,563)

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

	Ar 1 Awst 2012 £'000	Llifau Arian £'000	Ar 31 Gorffennaf 2013 £'000
24) DADANSODDI NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD NET			
Arian Parod yn y Banc ac Arian Parod mewn Llaw	5,012	17,279	22,291
Arian Parod o fewn Gwaddolion yn Gynwysiedig yng Ngweddill Refeniw Gwaddolion	8,842	(229)	8,613
Gorddrafft Banc	(5,839)	5,839	0
	8,015	22,889	30,904
Buddsoddiadau Asedion Cyfredol	11,216	(11,039)	177
Cyfanswm	19,231	11,850	31,081

### 25) CYNLLUNIAU PENSIWN

Mae'r Brifysgol yn rhan o dri Chynllun Pensiwn gwahanol: Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), Cronfa Pensiwn Dyfed (DPF), a Chynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (AUPAS).

Dyma gyfanswm costau'r pensiwnau i'r Brifysgol:

	2013 £'000	2012 £'000
Cyfraniadau USS a dalwyd	5,810	5,558
Cyfanswm a dalwyd am AUPAS o'r Cyfrif Incwm a Gwariant	2,787	2,603
Cyfanswm a dalwyd am DPF o'r Cyfrif Incwm a Gwariant	25	50
	8,622	8,211

### CYNLLUN PENSIWN Y PRIFYSGOLION

Y mae'r sefydliad yn rhan o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), sef cynllun budd-daliadau penodedig, sy'n cael ei gyllido'n allanol a'i osod allan ar gontract o'r Ail Bensiwn Gwladwriaethol. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân, sef *Universities Superannuation Scheme Limited*, a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, nid yw ei asedau wedi'u neilltuo i sefydliadau unigol ac mae cyfradd gyfrannu wedi'i gosod i'r cynllun cyfan. Felly mae'r sefydliad yn agored i risgiau actiwaraidd sy'n gysylltiedig â staff cyflogedig sefydliadau eraill ac nid oes modd ynysu ei gyfran ei hun o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ar sail gyson a rhesymol ac felly, yn unol â gofynion FRS 17 'Budd-daliadau Ymdeol', caiff cyfraniadau i'r cynllun eu cyfrifo fel petai'n gynllun cyfraniadau penodedig. O ganlyniad, mae'r maint a dalwyd o'r cyfrif incwm a gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am gyfnod y cyfrifon.

Cynhaliwyd y gwerthuso actiwaraidd diweddaraf ar y cynllun ar 31 Mawrth 2011. Dyna'r ail brisiad a wnaed i'r USS yn ôl y drefn ariannu newydd sy'n benodol i'r cynllun dan sylw a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiwnau 2004, ac sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau fabwysiadu amcan ariannu statudol, a ddylai fod ag asedau digonol a phriodol i dalu am eu darpariaethau technegol. Yr actiwari hefyd sy'n cynnal ein hadolygiad rheolaidd ar y lefelau cyllido. Yn benodol, mae'n cynnal adolygiad ar y lefel gyllido bob blwyddyn rhwng y prisiadau teirblwydd ac mae manylion ei amcangyfrif ef o'r lefel gyllido ar 31 Mawrth 2013 wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

Cynhaliwyd y gwerthuso drwy'r dull rhagamcanu unedau. Mae'r rhagdybiaethau sy'n dwyn yr effaith fwyaf arwyddocaol ar ganlyniad y gwerthuso yw'r rhai sy'n ymwneud â'r gyfradd adennill ar fuddsoddiadau (sef cyfradd llog y prisio), cyfraddau codi cyflogau a phensiynau, a'r cyfraddau marw tybiedig. Mae'r tybiaethau ariannol yn deillio o'r arenillion yn y farchnad ar ddyddiad y gwerthuso. Mae addasiad wedi'i gynnwys hefyd fel "premiwm risg chwyddiant" drwy dynnu 0.3% o'r chwyddiant a awgrymir gan y farchnad oherwydd y lefel uchel o chwyddiant a awgrymir yn hanesyddol gan fondiau'r llywodraeth (yn enwedig o'u cymharu â tharged Banc Lloegr, sef 2% i Fyngai Prisiau Defnyddwyr, sy'n cyfateb yn fras i 2.75% i'r Mynegai Prisiau Masnachol bob blwyddyn).



## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

### 25) CYNLLUNIAU PENSIWN (parhad)

#### CYNLLUN PENSIWN Y PRIFYSGOLION (parhad)

I gyfrifo'r darpariaethau technegol, tybiwyd mai 6.1% y flwyddyn fyddai'r gyfradd llog ar gyfer gwerthuso, byddai cyflogau yn cynyddu 4.4% y flwyddyn (gyda chyflog cyffredinol yn tyfu 3.65% y flwyddyn yn y tymor byr ac ystyriaeth ychwanegol am gyflogau'n cynyddu oherwydd oedran a dyrchafiadau, yn adlewyrchu profiad y Cynllun yn y gorffennol, gyda mwy o arian wrth gefn, rhag ofn, ar ben hynny ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth y gorffennol) ac fe fyddai pensiynau yn cynyddu 3.4% y flwyddyn am y 3 blynedd ar ôl y prisiad ac wedyn 2.6% y flwyddyn ar ôl hynny.

Defnyddiwyd tablau oedrannau marw safonol, sef:

Marwolaethau aelodau gwrywaidd: tablau blwyddyn geni S1NA – heb raddio am oedran.

Marwolaethau aelodau benywaidd: tablau blwyddyn geni S1NA – wedi'u graddio i lawr 1 flwyddyn.

Mae'r tablau hyn yn adlewyrchiad rhesymol o brofiad gwirioneddol USS ond maent hefyd yn cynnig darlun ceidwadol a fydd yn darparu ar gyfer gwelliannau pellach yn y cyfraddau marw. Cafodd rhagamcanion CMI 2009 eu mabwysiadu hefyd, gyda 1.25% y flwyddyn yn gyfradd hirdymor. Dyma'r disgwyliadau einioes wrth ymddeol yn 65 oed:

Gwrywod (benywod) sydd yn 65 oed ar hyn o bryd	23.7(25.6) o flynyddoedd
Gwrywod (benywod) sydd yn 45 oed ar hyn o bryd	25.5(27.6) o flynyddoedd

Ar ddyddiad y gwerthuso, gwerth asedau'r cynllun ar y farchnad oedd £32,433.5 miliwn a gwerth darpariaethau technegol y Cynllun oedd £35,343.7 miliwn, gan adael £2,910.2 miliwn o ddiffyg. Yr oedd yr asedau felly yn ddigon i gynnwys 92% o'r budd-daliadau cronedig i aelodau, ar ôl caniatáu am y cynnydd tebygol mewn enillion yn y dyfodol.

